## ATODLEN 1

## COSBAU PENODEDIG

### *Y swm gostyngol a'r cyfnod ar gyfer ei dalu*

7 (1) Mae'r swm gostyngol yn daladwy, yn lle swm y gosb, os gwneir taliad cyn diwedd y cyfnod ar gyfer talu'r swm gostyngol.

(2) Y cyfnod hwnnw yw'r cyfnod o 15 niwrnod sy'n dechrau â'r diwrnod y rhoddir yr hysbysiad, oni bai nad yw'r 15fed diwrnod yn ddiwrnod gwaith.

(3) Os nad yw'r 15fed diwrnod yn ddiwrnod gwaith, y cyfnod hwnnw yw'r cyfnod sy'n dechrau â'r diwrnod y rhoddir yr hysbysiad ac sy'n dod i ben pan ddaw'r diwrnod gwaith cyntaf yn dilyn y 15fed diwrnod i ben.

(4) Yn y paragraff hwn, ystyr "diwrnod gwaith" yw unrhyw ddiwrnod nad yw'n ddydd Sadwrn, dydd Sul, Dydd Nadolig, Dydd Gwener y Groglith nac yn ddiwrnod sy'n ŵyl banc yng Nghymru a Lloegr o dan Ddeddf Bancio a Thrafodion Ariannol 1971 (Banking and Financial Dealings Act 1971 (c. 80)).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** Atod. 1 para. 7 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 28(2)**

**I2** Atod. 1 para. 7 mewn grym ar 2.3.2020 gan O.S. 2020/175, **rhl. 2(c)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) 2018, Paragraff 7.